

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport	3
Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister for on her Responsibilities other than for Business	4

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Goresgyn Trais yn y Cartref Combating Domestic Violence

Q11 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's initiatives to combat domestic violence? OAQ0587(SJR)

C11 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i oresgyn trais yn y cartref? OAQ0587(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): The Assembly Government is funding a domestic abuse co-ordinator in every community safety partnership in Wales to ensure that local initiatives are developed. Additionally, seven national and local projects are being funded; they include the national helpline, which provides a wide range of support for domestic abuse victims.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu cydgysylltydd trais yn y cartref ym mhob partneriaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru i sicrhau bod mentrau lleol yn cael eu datblygu. Hefyd, mae saith o brosiectau cenedlaethol a lleol yn cael eu hariannu; maent yn cynnwys y llinell gymorth genedlaethol, sy'n darparu amrediad eang o gymorth ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref.

Y Gwasanaeth Tân ac Achub The Fire and Rescue Service

Q12 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the fire and rescue service? OAQ0629(SJR)

C12 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth tân ac achub? OAQ0629(SJR)

Edwina Hart: I refer you to the fire and rescue national framework, published in March 2005. This sets out our expectations of the service and the support it can expect from us. On 21 March I will launch our risk reduction planning guidance, enabling authorities to plan local service provision.

Edwina Hart: Yr wyf yn eich cyfeirio at y fframwaith tân ac achub cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005. Mae hwn yn nodi ein disgwyliadau o ran y gwasanaeth a'r gefnogaeth y gall ei ddisgwyl gennym. Ar 21 Mawrth byddaf yn lansio ein canllawiau cynllunio ar gyfer lleihau risg, a fydd yn galluogi awdurdodau i gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau lleol.

Ardaloedd Adnewyddu Tai Housing Renewal Areas

Q13 Irene James: Will the Minister make a statement about housing renewal areas in Wales? OAQ0586(SJR)

C13 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ardaloedd adnewyddu tai yng Nghymru? OAQ0586(SJR)

Edwina Hart: A total of 51 renewal areas have been declared in Wales covering more than 52,500 houses. Activities in these areas are successfully improving housing, environmental and socio-economic conditions. We are continuing to provide significant resources of almost £26 million a year to support these areas.

Edwina Hart: Mae cyfanswm o 51 o ardaloedd adnewyddu wedi eu cyhoeddi yng Nghymru, sy'n cynnwys mwy na 52,500 o dai. Mae gweithgareddau yn yr ardaloedd hyn yn llwyddiannus o ran gwella cyflwr tai, yr amgylchedd ac amodau economaidd-gymdeithasol. Yr ydym yn parhau i ddarparu adnoddau sylweddol o bron i £26 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r ardaloedd hyn.

Cyfiawnder Cymdeithasol Social Justice

Q14 Irene James: Will the Minister make a statement about the cross-cutting nature of social justice? OAQ0585(SJR)

C14 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am natur drawsbynciol cyfiawnder cymdeithasol? OAQ0585(SJR)

Edwina Hart: There are a range of housing policies which have a cross-cutting impact for other Welsh Assembly Government agendas. There are 137 Communities First partnerships working with other agendas and 22 community safety partnerships in Wales which all use a multi-agency approach to tackle crime, disorder, anti-social behaviour and substance misuse.

Edwina Hart: Mae amrywiaeth o bolisiâu tai yn cael effaith drawsbynciol ar agendâu eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae 137 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gydag agendâu eraill a 22 o bartneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru sydd i gyd yn defnyddio dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â throedd, anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamdefnyddio sylweddau.

Tai Fforddiadwy yn y Canolbarth a'r Gorllewin Affordable Housing in Mid and West Wales

Q15 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on measures taken to ensure sufficient provision of affordable housing in Mid and West Wales? OAQ0606(SJR)

C15 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau a gymerwyd i sicrhau y darperir digon o dai fforddiadwy yn y Canolbarth a'r Gorllewin? OAQ0606(SJR)

Edwina Hart: On 9 February I made a comprehensive report to the Social Justice and Regeneration Committee on action I am taking to improve the supply of affordable housing throughout Wales. I have nothing to add at this time.

Edwina Hart: Ar 9 Chwefror cyflwynais adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar y camau yr wyf yn eu cymryd i wella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy drwy Gymru gyfan. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

Dirywiad y Diwydiant Gweithgynhyrchu Decline in the Manufacturing Industry

Q11 Kirsty Williams: What action is the Welsh Assembly Government taking in response to the decline in manufacturing in Wales? OAQ0732(EDT)

C11 Kirsty Williams: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ymateb i ddirywiad y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ0732(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): The Assembly Government is providing an extensive range of support to assist Welsh manufacturers face increasingly global pressures. We are also acting upon the recommendations of the manufacturing task and finish group in fine-tuning support for the sector.

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu amrediad eang o gymorth i helpu'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru i wynebu pwysau byd-eang cynyddol. Yr ydym hefyd yn gweithredu argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ar gynhyrchu o ran mireinio'r gefnogaeth ar gyfer y sector.

Contractau Cynnal a Chadw Ffyrdd Road Maintenance Contracts

Q12 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on tenders of road maintenance contracts for trunk roads? OAQ0735(EDT)

C12 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dendrau contractau cynnal a chadw ffyrdd ar gyfer cefnffyrdd? OAQ0735(EDT)

Andrew Davies: The majority of maintenance work on the trunk road network is undertaken by the south Wales, mid Wales and north Wales trunk road agencies. Responsibilities are delegated in accordance with the Highways Act 1980 and agency agreements are in place with the lead local authority for each trunk road agent.

Andrew Davies: Mae'r mwyafrif o'r gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn cael ei wneud gan asiantaethau cefnffyrdd de, canolbarth a gogledd Cymru. Mae cyfrifoldebau'n cael eu rhannu yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 ac mae cytundebau asiantaeth wedi'u sefydlu gyda'r awdurdod lleol arweiniol ar gyfer pob asiant cefnffyrdd.

Ffigurau Swyddi yn y Gogledd Job Figures for North Wales

Q13 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on job figures for north Wales? OAQ0712(EDT)

C13 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffigurau swyddi yn y gogledd? OAQ0712(EDT)

Andrew Davies: According to the labour force survey, there were 294,000 people in employment in north Wales in 2004, which is 19,000, or nearly 7 per cent, more than in 2001.

Andrew Davies: Yn ôl yr arolwg o'r llafurlu yr oedd 294,000 o bobl mewn gwaith yng ngogledd Cymru yn 2004, sef 19,000, neu bron i 7 y cant, yn fwy nag yn 2001.

Blaenoriaethau Trafnidiaeth y Canolbarth a'r Gorllewin Transport Priorities for Mid and West Wales

Q14 Helen Mary Jones: What representations have the Minister received regarding the Welsh Assembly Government's transport priorities for Mid and West Wales? OAQ0717(EDT)

C14 Helen Mary Jones: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch blaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y canolbarth a'r gorllewin? OAQ0717(EDT)

Andrew Davies: I receive regular representations about the Welsh Assembly Government's transport priorities in all parts of Wales.

Andrew Davies: Yr wyf yn derbyn sylwadau rheolaidd ynglŷn â blaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob rhan o Gymru.

Cynllun Pensiwn y WDA WDA Pension Scheme

Q15 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on the Welsh Development Agency's pension scheme? OAQ0748(EDT)

C15 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun pensiwn Awdurdod Datblygu Cymru? OAQ0748(EDT)

Andrew Davies: We are putting in place arrangements to ensure that WDA staff experience no detriment to their existing pension entitlement as a result of the merger. This will also enable us to manage the financial consequences associated with the shortfall in the WDA scheme prudently over a number of years.

Andrew Davies: Yr ydym yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau na fydd staff y WDA yn dioddef unrhyw golled i'w hawliau pensiwn presennol o ganlyniad i'r uno. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i reoli'r canlyniadau ariannol sydd ynghlwm â'r diffyg yng nghynllun y WDA, yn ddarbodus dros nifer o flynyddoedd.

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister for on her Responsibilities other than for Business

Bwlio Plant a Phobl Ifanc Bullying of Children and Young People

Q11 Peter Black: Will the Minister make a statement on how she is co-ordinating the Assembly Government's policies to tackle the bullying of children and young people? OAQ0211(BM)

C11 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae hi'n cydlynu polisiau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn rhoi sylw i fwlio plant a phobl ifanc? OAQ0211(BM)

The Business Minister (Jane Hutt): We are committed to tackling bullying of children in Wales. Officials in our Department for Education and Training are working with key partners—including schools, local education

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yr ydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â bwlio plant yng Nghymru. Mae swyddogion yn ein Hadran Addysg a Hyfforddi yn gweithio gyda phartneriaid allweddol—sy'n cynnwys

authorities, members of the anti-bullying network and the Children's Commissioner for Wales. In particular, we await with interest the commissioner's report on bullying.

ysgolion, awdurdodau addysg lleol, aelodau'r rhwydwaith gwrth-fwlio a Chomisiynydd Plant Cymru. Yr ydym yn aros yn eiddgar am adroddiad y comisiynydd ar fwlio, yn benodol.

Gwybodaeth i bobl sydd â Nam Synhwyraidd Information for those with Sensory Deprivation

Q12 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on making Welsh Assembly Government information available to those with sensory deprivation? OAQ0209(BM)

C12 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrhau bod gwybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gael i bobl sydd â nam synhwyraidd? OAQ0209(BM)

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government is committed to creating a socially inclusive society in Wales, including addressing the needs of those with sensory deprivation. As an exemplar, the Assembly Government provides information to the public in accessible formats, including Braille, audio and large print.

Jane Hutt: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i greu cymdeithas gynhwysol yng Nghymru, gan gynnwys rhoi sylw i anghenion pobl sydd â nam synhwyraidd. Fel enghraifft, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, tapiau sain a phrint bras.

Sicrhau Didwylledd yn y Llywodraeth Ensuring Openness in Government

Q13 Lisa Francis: What action is the Minister taking to ensure openness in Government? OAQ0212(BM)

C13 Lisa Francis: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau didwylledd yn y Llywodraeth? OAQ0212(BM)

Jane Hutt: The policy reflected in our Code of Practice on Public Access to Information describes how we go beyond the legal requirements for openness. We have received praise from the campaign for freedom of information, journalists, academics and the information commissioner for the way in which we respond to information requests.

Jane Hutt: Mae'r polisi sy'n cael ei adlewyrchu yn ein Cod Ymarfer ar Ganiatau i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth yn disgrifio sut yr ydym yn mynd ymhellach na'r gofynion cyfreithiol ar gyfer didwylledd. Yr ydym wedi derbyn canmoliaeth gan yr ymgyrch dros ryddid gwybodaeth, newyddiadurwyr, academyddion a'r comisiynydd gwybodaeth, am y modd yr ydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth.